



OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2023 Rhif 1276 (Cy. 224)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Anifeiliaid (Awdurdodiadau)
(Cymru) 2023

<i>Gwnaed</i>	<i>27 Tachwedd 2023</i>
<i>Gosodwyd gerbron Senedd Cymru</i>	<i>29 Tachwedd 2023</i>
<i>Yn dod i rym</i>	<i>22 Rhagfyr 2023</i>

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2023 No. 1276 (W. 224)

AGRICULTURE, WALES

The Feed Additives (Authorisations) (Wales) Regulations 2023

<i>Made</i>	<i>27 November 2023</i>
<i>Laid before Senedd Cymru</i>	<i>29 November 2023</i>
<i>Coming into force</i>	<i>22 December 2023</i>



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2023 Rhif 1276 (Cy. 224)

2023 No. 1276 (W. 224)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

AGRICULTURE, WALES

Rheoliadau Ychwanegion Bwyd
Anifeiliaid (Awdurdodiadau)
(Cymru) 2023

The Feed Additives
(Authorisations) (Wales)
Regulations 2023

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn yn unol â Rheoliad (EC) Rhif 1831/2003 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar ychwanegion sydd i'w defnyddio mewn maeth anifeiliaid (EUR 1831/2003). Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer awdurdodi rhoi 13 o ychwanegion bwyd anifeiliaid ar y farchnad, eu prosesu a'u defnyddio.

The Welsh Ministers make these Regulations pursuant to Regulation (EC) No 1831/2003 of the European Parliament and of the Council on additives for use in animal nutrition (EUR 2003/1831). These Regulations make provision for the authorisation for the placing on the market, processing and use of 13 feed additives.

Mae rheoliad 3, ac Atodlenni 1 i 13, yn darparu ar gyfer awdurdodi ychwanegion bwyd anifeiliaid.

Regulation 3, and Schedules 1 to 13, provide for the authorisation of feed additives.

Mae Atodlen 1 yn cynnwys adnewyddiad (ag addasiad) o awdurdodiad paratoad o endo-1,4-beta-sylanas (EC 3.2.1.8) a gynhyrchir o *Trichoderma reesei* (CBS 143953) (rhif adnabod 4a11), ac estyniad o'r defnydd awdurdodedig presennol i gwmpasu rhywogaethau/categoriâu ychwanegol o anifeiliaid. Yr addasiadau wrth adnewyddu'r awdurdodiad yw—

Schedule 1 contains a renewal (with modification) of an authorisation of a preparation of endo-1,4-beta-xylanase (EC 3.2.1.8) produced from *Trichoderma reesei* (CBS 143953) (identification number 4a11), and an extension of existing authorised uses to cover additional species/categories of animal. The modifications on renewal of the authorisation are—

- mae'r rhif adnabod straen ar gyfer *Trichoderma reesei* wedi ei ddiweddarau i "CBS 142953" ("ATCC PTA 5588" yn flaenorol);
- mae isafswm cynnwys yr ychwanegyn bwyd anifeiliaid ar gyfer tyrcwn i'w pesgi wedi ei ostwng o 1,250 i 625 U/kg o fwyd anifeiliaid cyflawn.

- the strain identification number for *Trichoderma reesei* is updated to "CBS 142953" (formerly "ATCC PTA 5588");
- the minimum content of feed additive for turkeys for fattening is reduced from 1,250 to 625 U/kg of complete feed.

Mae Atodlen 2 yn cynnwys awdurdodiad newydd, ar gyfer paratoad o *Lacticaseibacillus rhamnosus* (IMI 507023) (rhif adnabod 1k21701).

Schedule 2 contains a new authorisation, for a preparation of *Lacticaseibacillus rhamnosus* (IMI 507023) (identification number 1k21701).

Mae Atodlen 3 yn cynnwys awdurdodiad newydd, ar gyfer paratoad o *Pediococcus pentosaceus* (IMI 507024) (rhif adnabod 1k21016).

Mae Atodlen 4 yn cynnwys awdurdodiad newydd, ar gyfer paratoad o *Pediococcus pentosaceus* (IMI 507025) (rhif adnabod 1k21017).

Mae Atodlen 5 yn cynnwys awdurdodiad newydd, ar gyfer paratoad o *Lactiplantibacillus plantarum* (IMI 507026) (rhif adnabod 1k21601).

Mae Atodlen 6 yn cynnwys awdurdodiad newydd, ar gyfer paratoad o *Lactiplantibacillus plantarum* (IMI 507027) (rhif adnabod 1k21602).

Mae Atodlen 7 yn cynnwys awdurdodiad newydd, ar gyfer paratoad o *Lactiplantibacillus plantarum* (IMI 507028) (rhif adnabod 1k21603).

Mae Atodlen 8 yn cynnwys awdurdodiad newydd, ar gyfer paratoad o *Lactiplantibacillus plantarum* (DSM 26571) (rhif adnabod 1k1604).

Mae Atodlen 9 yn cynnwys adnewyddiad (ag addasiad) o awdurdodiad endo-1,4-beta-sylanase a gynhyrchir o *Trichoderma reesei* (CBS 114044) (EC 3.2.1.8) (rhif adnabod 4a8i). Yr addasiadau wrth adnewyddu'r awdurdodiad yw—

- mae rhif adnabod yr ychwanegyn wedi ei newid o 4a8 i 4a8i;
- mae lefel isaf yr actifedd ensym stoc wedi ei gostwng i 160,000 BXU/g ar y ffurfiau solet a hylif (o 4,000,000 BXU/g ar y ffurf solet a 400,000 BXU/g ar y ffurf hylif).

Mae Atodlen 10 yn cynnwys adnewyddiad (ag addasiad) o awdurdodiad 6-ffytas (EC 3.1.3.26) a gynhyrchir o *Trichoderma reesei* (CBS 122001) (rhif adnabod 4a12). Yr addasiad wrth adnewyddu'r awdurdodiad yw—

- mae lefel isaf yr actifedd ensym stoc wedi ei gostwng i 5,000 PPU/g ar y ffurf hylif (o 10,000 PPU/g).

Mae Atodlen 11 yn cynnwys awdurdodiad newydd, ar gyfer sylfaen L-lysin (hylif) a gynhyrchir o *Corynebacterium glutamicum* (KCCM 80216 neu KCTC 12307BP) (rhif adnabod 3c326).

Mae Atodlen 12 yn cynnwys awdurdodiad newydd, ar gyfer L-lysin monohydroclorid a gynhyrchir o *Corynebacterium glutamicum* (KCCM 80216 neu KCTC 12307BP) (rhif adnabod 3c327).

Schedule 3 contains a new authorisation, for a preparation of *Pediococcus pentosaceus* (IMI 507024) (identification number 1k21016).

Schedule 4 contains a new authorisation, for a preparation of *Pediococcus pentosaceus* (IMI 507025) (identification number 1k21017).

Schedule 5 contains a new authorisation, for a preparation of *Lactiplantibacillus plantarum* (IMI 507026) (identification number 1k21601).

Schedule 6 contains a new authorisation, for a preparation of *Lactiplantibacillus plantarum* (IMI 507027) (identification number 1k21602).

Schedule 7 contains a new authorisation, for a preparation of *Lactiplantibacillus plantarum* (IMI 507028) (identification number 1k21603).

Schedule 8 contains a new authorisation, for a preparation of *Lactiplantibacillus plantarum* (DSM 26571) (identification number 1k1604).

Schedule 9 contains a renewal (with modification) of an authorisation of endo-1,4-beta-xylanase produced from *Trichoderma reesei* (CBS 114044) (EC 3.2.1.8) (identification number 4a8i). The modifications on renewal of the authorisation are—

- the identification number of the additive is changed from 4a8 to 4a8i;
- the minimum level of stock enzyme activity is reduced to 160,000 BXU/g in both solid and liquid forms (from 4,000,000 BXU/g in the solid form and 400,000 BXU/g in the liquid form).

Schedule 10 contains a renewal (with modification) of an authorisation of 6-phytase (EC 3.1.3.26) produced from *Trichoderma reesei* (CBS 122001) (identification number 4a12). The modification on renewal of the authorisation is—

- the minimum level of stock enzyme activity is reduced to 5,000 PPU/g in the liquid form (from 10,000 PPU/g).

Schedule 11 contains a new authorisation, for L-lysine base (liquid) produced from *Corynebacterium glutamicum* (KCCM 80216 or KCTC 12307BP) (identification number 3c326).

Schedule 12 contains a new authorisation, for L-lysine monohydrochloride produced from *Corynebacterium glutamicum* (KCCM 80216 or KCTC 12307BP) (identification number 3c327).

Mae Atodlen 13 yn cynnwys awdurdodiad newydd, ar gyfer 3-nitrooxypropanol (rhif adnabod 4c1).

Mae rheoliad 3(2) yn darparu bod awdurdodiadau a roddir gan y Rheoliadau hyn yn ddilys am gyfnod o ddeng mlynedd yn unol ag Erthygl 9(7) o EUR 2003/1831. Mae hyn yn ddarostyngedig i Erthygl 14(4) o'r Rheoliad hwnnw, sy'n darparu ar gyfer estyn cyfnod yr awdurdodiad mewn amgylchiadau penodol pan fo cais i adnewyddu wedi ei gyflwyno.

Mae rheoliad 4 yn cynnwys darpariaeth drosiannol. Mae adnewyddu awdurdodiad yr ychwanegyn bwyd anifeiliaid o dan Atodlen 9 yn ddarostyngedig i newid i rif adnabod yr ychwanegyn (o "4a8" i "4a8i"). Mae rheoliad 4 yn caniatáu parhau i gynhyrchu a labelu cynhyrchion, am y cyfnodau cyfyngedig o amser a bennir, o dan amodau'r awdurdodiad ymlaen llaw a'r gofynion labelu sy'n gymwys yn union cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym. Caniateir marchnata a defnyddio cynhyrchion a gynhyrchir o fewn y cyfnodau trosiannol hyd nes y bydd stociau wedi eu disbyddu.

Mae rheoliad 5 yn diwygio Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 601/2013 sy'n ymwneud ag awdurdodi cobalt(II) asetad tetrahydrad, cobalt(II) carbonad, cobalt(II) carbonad hydrocsid (2:3) monohydrad, cobalt(II) sylffad heptahydrad a cobalt(II) carbonad hydrocsid (2:3) monohydrad gronynnog araenedig fel ychwanegion bwyd anifeiliaid (EUR 2013/601), i ddileu cofnodion a ddisbyddwyd sy'n ymwneud â phedwar ychwanegyn bwyd anifeiliaid. Daeth yr awdurdodiadau ar gyfer yr ychwanegion bwyd anifeiliaid hynny i ben ar ddiwedd 14 Gorffennaf 2014. Mae'r pedwar ychwanegyn bwyd anifeiliaid hynny bellach wedi eu hawdurdodi dros dro am 5 mlynedd arall, o ran Cymru, drwy benderfyniad gweinyddol gan Weinidogion Cymru dyddiedig 20 Mehefin 2023, a wnaed yn unol ag Erthygl 15 o EUR 2003/1831. Rhagnodwyd ffurfiau'r awdurdodiadau ar gyfer yr ychwanegion bwyd anifeiliaid hynny gan Reoliadau Ychwanegion Bwyd Anifeiliaid (Ffurfi Awdurdodiadau Dros Dro) (Cyfansoddiad Cobalt(II)) (Cymru) 2023 (O.S. 2023/678 (Cy. 100)).

Mae rheoliad 6 yn dirymu, o ran Cymru, fân ddarpariaethau diwygio sy'n ymwneud ag offerynnau sydd wedi eu dirymu gan reoliad 7 (ac Atodlen 14).

Mae rheoliad 7 ac Atodlen 14 yn dirymu, o ran Cymru, offerynnau a ddisbyddwyd, gan gynnwys yr awdurdodiadau ymlaen llaw ar gyfer yr ychwanegion bwyd anifeiliaid sydd bellach wedi eu hawdurdodi gan Atodlenni 1, 9 a 10.

Gellir cael rhagor o wybodaeth, gan gynnwys mewn perthynas ag unrhyw ddogfennaeth y cyfeirir ati yn yr Atodlenni, gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd yng

Schedule 13 contains a new authorisation, for 3-nitrooxypropanol (identification number 4c1).

Regulation 3(2) provides that authorisations granted by these Regulations are valid for a period of ten years in accordance with Article 9(7) of EUR 2003/1831. This is subject to Article 14(4) of that Regulation, which provides for an extension of the authorisation period in certain circumstances where an application for renewal has been submitted.

Regulation 4 contains transitional provision. The renewal of authorisation of the feed additive under Schedule 9 is subject to a change to the identification number of the additive (from "4a8" to "4a8i"). Regulation 4 allows the continued production and labelling of products, for the specified limited time periods, under the conditions of the prior authorisation and the labelling requirements applicable immediately before the coming into force of these Regulations. Products produced within the transitional periods may be marketed and used until stocks are exhausted.

Regulation 5 amends Commission Implementing Regulation (EU) No 601/2013 concerning the authorisation of cobalt(II) acetate tetrahydrate, cobalt(II) carbonate, cobalt(II) carbonate hydroxide (2:3) monohydrate, cobalt(II) sulphate heptahydrate and coated granulated cobalt(II) carbonate hydroxide (2:3) monohydrate as feed additives (EUR 2013/601), to remove spent entries relating to four feed additives. The authorisations for those feed additives expired at the end of 14 July 2014. Those four feed additives have now been provisionally authorised for a further 5 years, in relation to Wales, by administrative decision of the Welsh Ministers dated 20 June 2023, and made pursuant to Article 15 of EUR 2003/1831. The forms of authorisations for those feed additives were prescribed by the Feed Additives (Form of Provisional Authorisations) (Cobalt(II) Compounds) (Wales) Regulations 2023 (S.I. 2023/678 (W. 100)).

Regulation 6 revokes, in relation to Wales, minor amendment provisions relating to instruments that are revoked by regulation 7 (and Schedule 14).

Regulation 7 and Schedule 14 revoke, in relation to Wales, spent instruments including the prior authorisations for the feed additives now authorised by Schedules 1, 9 and 10.

Further information, including in relation to any documentation referenced in the Schedules, can be obtained from the Food Standards Agency in Wales,

Nghymru, Llawr 4, Adeilad Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ neu drwy ysgrifennu at: regulated.products.wales@food.gov.uk.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

4th Floor, Welsh Government Building, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ or by writing to regulated.products.wales@food.gov.uk.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations.

2023 Rhif 1276 (Cy. 224)

2023 No. 1276 (W. 224)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

AGRICULTURE, WALES

**Rheoliadau Ychwanegion Bwyd
Anifeiliaid (Awdurdodiadau)
(Cymru) 2023**

**The Feed Additives
(Authorisations) (Wales)
Regulations 2023**

Gwnaed 27 Tachwedd 2023

Made 27 November 2023

*Gosodwyd gerbron Senedd
Cymru* 29 Tachwedd 2023

Laid before Senedd Cymru 29 November 2023

Yn dod i rym 22 Rhagfyr 2023

Coming into force 22 December 2023

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan Erthyglau 9(1) a 18A(3) o Reoliad (EC) Rhif 1831/2003 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar ychwanegion sydd i'w defnyddio mewn maeth anifeiliaid(1).

The Welsh Ministers make these Regulations in exercise of the powers conferred by Articles 9(1) and 18A(3) of Regulation (EC) No 1831/2003 of the European Parliament and of the Council on additives for use in animal nutrition(1).

Cynhaliwyd ymgynghoriad fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(2).

There has been consultation as required by Article 9 of Regulation (EC) No 178/2002 of the European Parliament and of the Council laying down the general principles and requirements of food law, establishing the European Food Safety Authority and laying down procedures in matters of food safety(2).

Enwi, rhychwant, cymhwyso a dod i rym

Title, extent, application and coming into force

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Anifeiliaid (Awdurdodiadau) (Cymru) 2023.

1.—(1) The title of these Regulations is the Feed Additives (Authorisations) (Wales) Regulations 2023.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn—

(2) These Regulations—

- (a) yn rhychwantu Cymru a Lloegr;
- (b) yn gymwys o ran Cymru;
- (c) yn dod i rym ar 22 Rhagfyr 2023.

- (a) extend to England and Wales;
- (b) apply in relation to Wales;
- (c) come into force on 22 December 2023.

(1) EUR 2003/1831, a ddiwygiwyd gan O.S. 2019/654, 2022/377 a 1351. Diwygiwyd O.S. 2019/654 gan O.S. 2020/1504. Mae'r termau "prescribe" ac "appropriate authority" wedi eu diffinio yn Erthygl 2 o EUR 2003/1831. Mae Erthygl 9(1) yn gymwys mewn perthynas ag adnewyddiadau yn unol ag Erthygl 14.

(2) EUR 2002/178, a ddiwygiwyd gan O.S. 2019/641. Diwygiwyd O.S. 2019/641 gan O.S. 2020/1504.

(1) EUR 2003/1831, amended by S.I. 2019/654, 2022/377 and 1351. S.I. 2019/654 was amended by S.I. 2020/1504. The terms "prescribe" and "appropriate authority" are defined in Article 2 of EUR 2003/1831. Article 9(1) applies in relation to renewals in accordance with Article 14.

(2) EUR 2002/178, amended by S.I. 2019/641. S.I. 2019/641 was amended by S.I. 2020/1504.

Dehongli

2.—(1) Mae i ymadroddion Cymraeg a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn sy'n cyfateb i ymadroddion Saesneg yn Rheoliad 1831/2003 neu Reoliad 767/2009 yr un ystyr ag yn Rheoliad 1831/2003 neu Reoliad 767/2009, yn y drefn honno.

(2) Yn Atodlenni 1 i 13—

- (a) mae i ymadroddion Cymraeg a ddefnyddir i gyfeirio at rywogaethau neu gategoriâu o anifeiliaid sy'n cyfateb i ymadroddion Saesneg a ddefnyddir yn Atodiad 4 (categoriâu a diffiniadau o anifeiliaid targed etc.) i Reoliad 429/2008 yr un ystyr ag yn yr Atodiad hwnnw;
- (b) mae unrhyw gyfeiriad at fân rywogaeth i'w ddarllen yn unol â'r diffiniad o "minor species" yn Erthygl 1 o Reoliad 429/2008.

(3) Yn y rheoliad hwn—

ystyr "Rheoliad 1831/2003" ("*Regulation 1831/2003*") yw Rheoliad (EC) Rhif 1831/2003 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar ychwanegion sydd i'w defnyddio mewn maeth anifeiliaid;

ystyr "Rheoliad 429/2008" ("*Regulation 429/2008*") yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 429/2008 ar reolau manwl ar gyfer gweithredu Rheoliad (EC) Rhif 1831/2003 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran llunio a chyflwyno ceisiadau ac asesu ac awdurdodi ychwanegion bwyd anifeiliaid(1);

ystyr "Rheoliad 767/2009" ("*Regulation 767/2009*") yw Rheoliad (EC) Rhif 767/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar roi bwyd anifeiliaid ar y farchnad a'i ddefnyddio(2).

Awdurdodiadau

3.—(1) Mae Atodlenni 1 i 13 yn cynnwys awdurdodiadau ychwanegion bwyd anifeiliaid.

(2) Yn ddarostyngedig i Erthygl 14(4) (adnewyddu awdurdodiad) o Reoliad 1831/2003, mae'r awdurdodiadau a nodir yn Atodlenni 1 i 13 yn peidio â chael effaith ar ddiwedd 21 Rhagfyr 2033.

Interpretation

2.—(1) Expressions used in these Regulations and in Regulation 1831/2003 or Regulation 767/2009 have the same meaning as in Regulation 1831/2003 or Regulation 767/2009, respectively.

(2) In Schedules 1 to 13—

- (a) expressions used to refer to species or categories of animals that are also used in Annex 4 (categories and definitions of target animals etc.) to Regulation 429/2008 have the same meaning as in that Annex;
- (b) any reference to a minor species is to be read in accordance with the definition of "minor species" in Article 1 of Regulation 429/2008.

(3) In this regulation—

"Regulation 1831/2003" ("*Rheoliad 1831/2003*") means Regulation (EC) No 1831/2003 of the European Parliament and of the Council on additives for use in animal nutrition;

"Regulation 429/2008" ("*Rheoliad 429/2008*") means Commission Regulation (EC) No 429/2008 on detailed rules for the implementation of Regulation (EC) No 1831/2003 of the European Parliament and of the Council as regards the preparation and the presentation of applications and the assessment and the authorisation of feed additives(1);

"Regulation 767/2009" ("*Rheoliad 767/2009*") means Regulation (EC) No 767/2009 of the European Parliament and of the Council on the placing on the market and use of feed(2).

Authorisations

3.—(1) Schedules 1 to 13 contain authorisations of feed additives.

(2) Subject to Article 14(4) (renewal of authorisation) of Regulation 1831/2003, the authorisations set out in Schedules 1 to 13 cease to have effect at the end of 21 December 2033.

(1) EUR 2008/429, y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(2) EUR 2009/767, a ddiwygiwyd gan O.S. 2019/654. Diwygiwyd O.S. 2019/654 gan O.S. 2020/1504.

(1) EUR 2008/429, to which there are amendments not relevant to these Regulations.

(2) EUR 2009/767, amended by S.I. 2019/654. S.I. 2019/654 was amended by S.I. 2020/1504.

Darpariaeth drosiannol: Endo-1,4-beta-sylanas (EC 3.2.1.8) (rhif adnabod 4a8i (4a8 yn flaenorol))

4.—(1) Caniateir i'r ychwanegyn bwyd anifeiliaid perthnasol a'r rhag-gymysgeddau sy'n ei gynnwys, a gynhyrchir ac a labelir cyn diwedd 21 Mehefin 2024 gan gydymffurfio ag amodau'r awdurdodiad ymlaen llaw a'r gofynion labelu sy'n gymwys cyn 22 Rhagfyr 2023, barhau i gael ei roi neu eu rhoi ar y farchnad a'i ddefnyddio neu eu defnyddio hyd nes y bydd stociau wedi eu dihysbyddu.

(2) Caniateir i fwyd anifeiliaid cyfansawdd a deunyddiau bwyd anifeiliaid sy'n cynnwys yr ychwanegyn bwyd anifeiliaid perthnasol ac a fwriedir ar gyfer anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd, a gynhyrchir ac a labelir cyn diwedd 21 Rhagfyr 2024 gan gydymffurfio ag amodau'r awdurdodiad ymlaen llaw a'r gofynion labelu sy'n gymwys cyn 22 Rhagfyr 2023, barhau i gael ei roi neu eu rhoi ar y farchnad a'i ddefnyddio neu eu defnyddio hyd nes y bydd stociau wedi eu dihysbyddu.

(3) Yn y rheoliad hwn—

ystyr “awdurdodiad ymlaen llaw” (“*prior authorisation*”) yw'r awdurdodiad sydd wedi ei gynnwys yn Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 902/2009 sy'n ymwneud ag awdurdodi paratoad ensym o endo-1,4-beta-sylanas a gynhyrchir gan *Trichoderma reesei* (CBS 114044) fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid ar gyfer perchyll wedi eu diddyfnu, ieir i'w pesgi, ieir a fegir ar gyfer dodwy, tyrcwn i'w pesgi a thyrcwn a fegir ar gyfer bridio (deiliad awdurdodiad Roal Oy)(1);

ystyr “ychwanegyn bwyd anifeiliaid perthnasol” (“*relevant feed additive*”) yw'r ychwanegyn bwyd anifeiliaid endo-1,4-beta-sylanas (EC 3.2.1.8), sydd â'r rhif adnabod 4a8, a awdurdodwyd o dan yr awdurdodiad blaenorol(2).

Transitional provision: Endo-1,4-beta-xylanase (EC 3.2.1.8) (identification number 4a8i (formerly 4a8))

4.—(1) The relevant feed additive and premixtures containing it, which are produced and labelled before the end of 21 June 2024 in compliance with the conditions of the prior authorisation and the labelling requirements applicable before 22 December 2023, may continue to be placed on the market and used until stocks are exhausted.

(2) Compound feed and feed materials containing the relevant feed additive and intended for food-producing animals, which are produced and labelled before the end of 21 December 2024 in compliance with the conditions of the prior authorisation and the labelling requirements applicable before 22 December 2023, may continue to be placed on the market and used until stocks are exhausted.

(3) In this regulation—

“relevant feed additive” (“*ychwanegyn bwyd anifeiliaid perthnasol*”) means the feed additive endo-1,4-beta-xylanase (EC 3.2.1.8), with the identification number 4a8, authorised under the prior authorisation(1);

“prior authorisation” (“*awdurdodiad ymlaen llaw*”) means the authorisation contained in Commission Regulation (EC) No 902/2009 concerning the authorisation of an enzyme preparation of endo-1,4-beta-xylanase produced by *Trichoderma reesei* (CBS 114044) as a feed additive for weaned piglets, chickens for fattening, chickens reared for laying, turkeys for fattening and turkeys reared for breeding (holder of authorisation Roal Oy)(2).

(1) EUR 2009/902. Mae'r Rheoliad hwn wedi ei ddirymu gan reoliad 7 o'r Rheoliadau hyn, ac Atodlen 14 iddynt.

(2) Gweler Atodlen 9 i'r Rheoliadau hyn ar gyfer awdurdodiad yr ychwanegyn bwyd anifeiliaid hwn a adnewyddwyd.

(1) See Schedule 9 to these Regulations for the renewed authorisation of this feed additive.

(2) EUR 2009/902. This Regulation is revoked by regulation 7 of, and Schedule 14 to, these Regulations.

Diwygio Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 601/2013

5.—(1) Mae Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 601/2013 sy'n ymwneud ag awdurdodi cobalt(II) asetat tetrahydrad, cobalt(II) carbonad, cobalt(II) carbonad hydrocsid (2:3) monohydrad, cobalt(II) sylffad heptahydrad a cobalt(II) carbonad hydrocsid (2:3) monohydrad gronynnog araenedig fel ychwanegion bwyd anifeiliaid (1) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn yr Atodiad, yn y tabl, hepgorer y cofnodion ar gyfer—

- (a) cobalt(II) asetat tetrahydrad (rhif adnabod 3b301);
- (b) cobalt(II) carbonad (rhif adnabod 3b302);
- (c) cobalt(II) carbonad hydrocsid (2:3) monohydrad (rhif adnabod 3b303);
- (d) cobalt(II) sylffad heptahydrad (rhif adnabod 3b305).

Diwygio Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/221

6.—(1) Mae Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/221 sy'n diwygio Rheoliadau (EC) Rhif 785/2007, (EC) Rhif 379/2009, (EC) Rhif 1087/2009, (EU) Rhif 9/2010, (EU) Rhif 337/2011 a Rheoliadau Gweithredu (EU) Rhif 389/2011, (EU) Rhif 528/2011, (EU) Rhif 840/2012, (EU) Rhif 1021/2012, (EU) 2016/899, (EU) 2016/997, (EU) 2017/440 ac (EU) 2017/896 ynghylch enw deiliad yr awdurdodiad a chynrychiolydd deiliad yr awdurdodiad ar gyfer ychwanegion bwyd anifeiliaid penodol(2) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Hefgorer Erthygl 4 (diwygio Rheoliad (EU) Rhif 9/2010).

(3) Hefgorer Erthygl 7 (diwygio Rheoliad Gweithredu (EU) Rhif 528/2011).

(4) Hefgorer Erthygl 9 (diwygio Rheoliad Gweithredu (EU) Rhif 1021/2012).

Dirymiadau

7. Mae'r offerynnau a restrir yn Atodlen 14 wedi eu dirymu.

Amendment of Commission Implementing Regulation (EU) No 601/2013

5.—(1) Commission Implementing Regulation (EU) No 601/2013 concerning the authorisation of cobalt(II) acetate tetrahydrate, cobalt(II) carbonate, cobalt(II) carbonate hydroxide (2:3) monohydrate, cobalt(II) sulphate heptahydrate and coated granulated cobalt(II) carbonate hydroxide (2:3) monohydrate as feed additives(1) is amended as follows.

(2) In the Annex, in the table, omit the entries for—

- (a) cobalt(II) acetate tetrahydrate (identification number 3b301);
- (b) cobalt(II) carbonate (identification number 3b302);
- (c) cobalt(II) carbonate hydroxide (2:3) monohydrate (identification number 3b303);
- (d) cobalt(II) sulphate heptahydrate (identification number 3b305).

Amendment of Commission Implementing Regulation (EU) 2019/221

6.—(1) Commission Implementing Regulation (EU) 2019/221 amending Regulations (EC) No 785/2007, (EC) No 379/2009, (EC) No 1087/2009, (EU) No 9/2010, (EU) No 337/2011 and Implementing Regulations (EU) No 389/2011, (EU) No 528/2011, (EU) No 840/2012, (EU) No 1021/2012, (EU) 2016/899, (EU) 2016/997, (EU) 2017/440 and (EU) 2017/896 as regards the name of the holder of the authorisation and the representative of the holder of the authorisation for certain feed additives(2) is amended as follows.

(2) Omit Article 4 (amendment to Regulation (EU) No 9/2010).

(3) Omit Article 7 (amendment to Implementing Regulation (EU) No 528/2011).

(4) Omit Article 9 (amendment to Implementing Regulation (EU) No 1021/2012).

Revocations

7. The instruments listed in Schedule 14 are revoked.

(1) EUR 2013/601. Diwygiwyd y Rheoliad hwn cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu gan Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 131/2014.

(2) EUR 2019/221.

(1) EUR 2013/601. This Regulation was amended prior to implementation period completion day by Commission Implementing Regulation (EU) No 131/2014.

(2) EUR 2019/221.

Lynne Neagle

Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, o dan
awdurdod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau
Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
27 Tachwedd 2023

Deputy Minister for Mental Health and Wellbeing,
under the authority of the Minister for Health and
Social Services, one of the Welsh Ministers
27 November 2023

Adnewyddu awdurdodiad paratoad o endo-1,4-beta-sylanas (EC 3.2.1.8) a gynhyrchir o *Trichoderma reesei* (CBS 143953) (*Trichoderma reesei* (ATCC PTA 5588) yn flaenorol) (rhif adnabod 4a11) fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid ar gyfer ieir i'w pesgi, ieir dodwy, tyrcwn i'w pesgi, hwyaid, mân rywogaethau dofednod, perchyll wedi eu diddyfnu, a pherchyll i'w pesgi, a'i awdurdodi fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid gan estyn y defnydd presennol i gwmpasu pob rhywogaeth dofednod, perchyll (sugno ac wedi eu diddyfnu), moch i'w pesgi a mân rywogaethau teulu'r moch

Mae'r paratoad o endo-1,4-beta-sylanas (EC 3.2.1.8) a bennir yn y tabl, sy'n perthyn i'r categori ychwanegion "ychwanegion sootechnegol" ac i'r grŵp gweithredol "sylweddau gwella treuliadwyedd", wedi ei awdurdodi fel ychwanegyn mewn maeth anifeiliaid yn ddarostyngedig i'r amodau a nodir yn y tabl(1).

<i>Yr ychwanegyn</i>	Endo-1,4-beta-sylanas (EC 3.2.1.8)
<i>Rhif adnabod</i>	4a11
<i>Deiliad yr awdurdodiad</i>	Danisco (UK) Ltd
<i>Categori yr ychwanegyn</i>	Ychwanegion sootechnegol
<i>Grŵp gweithredol</i>	Sylweddau gwella treuliadwyedd
<i>Cyfansoddiad yr ychwanegyn</i>	Paratoad o endo-1,4-beta-sylanas (EC 3.2.1.8) a gynhyrchir drwy eplesu â <i>Trichoderma reesei</i> (CBS 143953) sydd ag isafswm actifedd ensym o 40,000 U/g ⁽¹⁾
<i>Nodweddiad y sylwedd(au) actif</i>	Endo-1,4-beta-sylanas (EC 3.2.1.8) a gynhyrchir drwy eplesu â <i>Trichoderma reesei</i> (CBS 143953) <ul style="list-style-type: none"> • Rhif CAS: 9025-57-4⁽²⁾ • Rhif EC (IUBMB): 3.2.1.8⁽³⁾ • Rhif EINECS: 232-800-2⁽⁴⁾
<i>Dulliau dadansoddi</i> ^{(5) (6)}	I feintioli actifedd ensym endo-1,4-beta-sylanas yn yr ychwanegyn bwyd anifeiliaid, y rhag-gymysgeddau, y deunyddiau bwyd anifeiliaid a'r bwyd anifeiliaid cyfansawdd: <ul style="list-style-type: none"> • Y dull colorimetrig yn mesur llifyn dŵr-hydawdd a ryddheir drwy effaith endo-1,4-beta-sylanas o swbstrad arabino sylan gwenith trawsgysylltiedig asurin
<i>Rhywogaeth neu categori o anifail</i>	<ul style="list-style-type: none"> • Pob rhywogaeth dofednod • Perchyll (sugno ac wedi eu diddyfnu) • Moch i'w pesgi • Mân rywogaethau teulu'r moch
<i>Oedran hynaf</i>	Dim
<i>Isafswm cynnwys</i> ⁽⁷⁾	Ar gyfer pob rhywogaeth dofednod: <ul style="list-style-type: none"> • 625 U/kg

(1) Mae'r awdurdodiad hwn yn cynnwys adnewyddiad (ag addasiad) o'r awdurdodiadau a roddwyd o dan Reoliad y Comisiwn (EU) Rhif 9/2010, Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 528/2011 a Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 1021/2012. Mae'r Rheoliadau hynny wedi eu dirymu gan reoliad 7 o'r Rheoliadau hyn, ac Atodlen 14 iddynt.

	Ar gyfer perchyll (sugno ac wedi eu diddyfnu), moch i'w pesgi, mân rywogaethau teulu'r moch: <ul style="list-style-type: none"> • 2000 U/kg
<i>Uchafswm cynnwys</i> ⁽⁷⁾	Dim
<i>Darpariaethau eraill</i>	Rhaid nodi'r amodau storio a'r sefydlogrwydd o ran trin â gwres yn y cyfarwyddiadau ar gyfer defnyddio'r ychwanegyn bwyd anifeiliaid a'r rhag-gymysgedd

⁽¹⁾ 1 uned ("U") yw'r swm o ensym sy'n rhyddhau 0.48 micromol (μmol) o siwgr rhydwythol (cyfatebol â sylos) y funud o arabino sylan gwenith ar pH4.2 a 50 °C.

⁽²⁾ CAS Registry Number® a neilltuwyd i'r paratoad hwn gan y Gwasanaeth Crynodebu Cemegol <https://www.cas.org/cas-data/cas-registry>.

⁽³⁾ Rhif adnabod a ddyrannwyd gan yr Undeb Biocemeg a Bioleg Foleciwlaidd Rhyngwladol (IUBMB) <https://iubmb.org>.

⁽⁴⁾ Stocrestr Ewropeaidd o Sylweddau Masnachol Presennol, fel y'i cyhoeddwyd yn OJ Rhif C 146A, 15.6.90, t.1.

⁽⁵⁾ Mae manylion y dulliau dadansoddi wedi eu nodi yn y ddogfen sydd â'r cyfeirnod "JRC.D.5/FSQ/CvH/DM/ag/ARES(2012)353089" ac a ddiweddarwyd ddiwethaf ar 6 Mehefin 2016. Ar gael yn: https://joint-research-centre.ec.europa.eu/publications/fad-2011-0030_en.

⁽⁶⁾ Diffinnir yr actifedd ensym ar gyfer endo-1,4-beta-sylanas yn y ddogfen sydd â'r cyfeirnod "JRC.DG.D.6/CvH/DM/hn/ARES(2010)-375745" ac a ddiweddarwyd ddiwethaf ar 6 Mehefin 2016. Ar gael yn: https://joint-research-centre.ec.europa.eu/publications/fad-2010-0007_en.

⁽⁷⁾ Cynnwys endo-1,4-beta-sylanas (unedau actifedd/kg o fwyd anifeiliaid cyflawn sydd â chynnwys lleithder o 12%).

Awdurdodi paratoad o *Lacticaseibacillus rhamnosus* (*Lactobacillus rhamnosus* yn flaenorol) (IMI 507023) (rhif adnabod 1k21701) fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid ar gyfer pob rhywogaeth o anifail

Mae'r paratoad o *Lacticaseibacillus rhamnosus* (IMI 507023) a bennir yn y tabl, sy'n perthyn i'r categori ychwanegion "ychwanegion technolegol" ac i'r grŵp gweithredol "ychwanegion silwair", wedi ei awdurdodi fel ychwanegyn mewn maeth anifeiliaid yn ddarostyngedig i'r amodau a nodir yn y tabl.

<i>Yr ychwanegyn</i>	<i>Lacticaseibacillus rhamnosus</i> (IMI 507023)
<i>Rhif adnabod</i>	1k21701
<i>Deiliad yr awdurdodiad</i>	Dim
<i>Categori ychwanegion</i>	Ychwanegion technolegol
<i>Grŵp gweithredol</i>	Ychwanegion silwair
<i>Cyfansoddiad yr ychwanegyn</i>	Paratoad solet o <i>Lacticaseibacillus rhamnosus</i> (IMI 507023) sy'n cynnwys isafswm o 1×10^{10} CFU/g o'r ychwanegyn
<i>Nodweddiad y sylwedd(au) actif</i>	Celloedd hyfyw <i>Lacticaseibacillus rhamnosus</i> (IMI 507023)
<i>Dulliau dadansoddi⁽¹⁾</i>	I gyfrifo (cyfrif cytrefi) yr ychwanegyn bwyd anifeiliaid: <ul style="list-style-type: none"> • Y dull plât taenu ar agar MRS (BS EN 15787:2021⁽²⁾) I adnabod y straen bacterol: <ul style="list-style-type: none"> • Electrofforesis jel maes pylsedig (PFGE)
<i>Rhywogaeth neu gategori o anifail</i>	Pob rhywogaeth o anifail
<i>Oedran hynaf</i>	Dim
<i>Isafswm cynnwys⁽³⁾</i>	Isafswm cynnwys yr ychwanegyn pan y'i defnyddir heb ei gyfuno â micro-organeddau eraill fel ychwanegion silwair: <ul style="list-style-type: none"> • 1×10^9 CFU/kg
<i>Uchafswm cynnwys⁽³⁾</i>	Dim
<i>Darpariaethau eraill</i>	1. Rhaid nodi'r amodau storio yn y cyfarwyddiadau ar gyfer defnyddio'r ychwanegyn bwyd anifeiliaid a'r rhag-gymysgedd 2. Nid yw'r ychwanegyn wedi ei awdurdodi i'w ddefnyddio ond mewn deunydd ffres sy'n hawdd i'w silweirio neu'n gymedrol anodd i'w silweirio ⁽⁴⁾

⁽¹⁾ Mae manylion y dulliau dadansoddi wedi eu nodi yn y ddogfen sydd â'r cyfeirnod "Ares(2021)1687524 – 08/03/2021" a "JRC F.5/CvH/ZE /AS/Ares", ac a ddiweddarwyd ddiwethaf ar 21 Ebrill 2021. Ar gael yn: https://joint-research-centre.ec.europa.eu/publications/fad-2020-0075007800790080_en. Y rhif cyfeirnod ffeil perthnasol yw "FAD-2020-0075".

⁽²⁾ O dan y cyfeirnod BS EN 15787:2021 "Animal feeding stuffs: Methods of sampling and analysis. Detection and enumeration of *Lactobacillus* spp. used as feed additive". Cyhoeddwyd gan y Sefydliad Safonau Prydeinig ar 31 Rhagfyr 2021 (ISBN 978 0 580 99831 7). Ar gael yn: <https://knowledge.bsigroup.com>.

⁽³⁾ Unedau ffurfio cytref (CFU) o'r ychwanegyn/kg o ddeunydd ffres.

⁽⁴⁾ Porthiant sy'n hawdd i'w silweirio: > 3% o garbohydradau hydawdd mewn deunydd ffres; porthiant sy'n gymedrol anodd i'w silweirio: 1.5 i 3.0% o garbohydradau hydawdd yn y deunydd ffres.

Awdurdodi paratoad o *Pediococcus pentosaceus* (IMI 507024) (rhif adnabod 1k21016) fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid ar gyfer pob rhywogaeth o anifail

Mae'r paratoad *Pediococcus pentosaceus* (IMI 507024) a bennir yn y tabl, sy'n perthyn i'r categori ychwanegion "ychwanegion technolegol" ac i'r grŵp gweithredol "ychwanegion silwair", wedi ei awdurdodi fel ychwanegyn mewn maeth anifeiliaid yn ddarostyngedig i'r amodau a nodir yn y tabl.

<i>Yr ychwanegyn</i>	<i>Pediococcus pentosaceus</i> (IMI 507024)
<i>Rhif adnabod</i>	1k21016
<i>Deiliad yr awdurdodiad</i>	Dim
<i>Categori ychwanegion</i>	Ychwanegion technolegol
<i>Grŵp gweithredol</i>	Ychwanegion silwair
<i>Cyfansoddiad yr ychwanegyn</i>	Paratoad solet o <i>Pediococcus pentosaceus</i> (IMI 507024) sy'n cynnwys isafswm o 1×10^{10} CFU/g o'r ychwanegyn
<i>Nodweddiad y sylwedd(au) actif</i>	Celloedd hyfyw <i>Pediococcus pentosaceus</i> (IMI 507024)
<i>Dulliau dadansoddi</i> ⁽¹⁾	I gyfrifo (cyfrif cytrefi) yr ychwanegyn bwyd anifeiliaid: <ul style="list-style-type: none"> Y dull plât taenu ar agar MRS (BS EN 15786:2021⁽²⁾) I adnabod straen bacterol: <ul style="list-style-type: none"> Electrofforesis jel maes pylsedig (PFGE)
<i>Rhywogaeth neu gategori o anifail</i>	Pob rhywogaeth o anifail
<i>Oedran hynaf</i>	Dim
<i>Isafswm cynnwys</i> ⁽³⁾	Isafswm cynnwys yr ychwanegyn bwyd anifeiliaid pan y'i defnyddir heb ei gyfuno â micro-organeddau eraill fel ychwanegion silwair: <ul style="list-style-type: none"> 1×10^9 CFU/kg
<i>Uchafswm cynnwys</i> ⁽³⁾	Dim
<i>Darpariaethau eraill</i>	1. Rhaid nodi'r amodau storio yn y cyfarwyddiadau ar gyfer defnyddio'r ychwanegyn bwyd anifeiliaid a'r rhag-gymysgedd 2. Nid yw'r ychwanegyn wedi ei awdurdodi i'w ddefnyddio ond mewn deunydd ffres sy'n hawdd i'w silweirio neu'n gymedrol anodd i'w silweirio ⁽⁴⁾

⁽¹⁾ Mae manylion y dulliau dadansoddi wedi eu nodi yn y ddogfen sydd â'r cyfeirnod "Ares(2021)1902366 – 16/03/2021" a "JRC F.5/CvH/MGH/AS/Ares", ac a ddiweddarwyd ddiwethaf ar 21 Ebrill 2021. Ar gael yn: https://joint-research-centre.ec.europa.eu/publications/fad-2020-00760077_en. Y rhif cyfeirnod ffeil yw "FAD-2020-0076".

⁽²⁾ O dan y cyfeirnod BS EN 15786:2021 "Animal feeding stuffs: Methods of sampling and analysis. Detection and enumeration of Bacillus spp. used as feed additive". Cyhoeddwyd gan y Sefydliad Safonau Prydeinig ar 30 Tachwedd 2021 (ISBN 978 0 580 99830 0). Ar gael yn: <https://knowledge.bsigroup.com>.

⁽³⁾ Unedau ffurfio cytref (CFU) o'r ychwanegyn/kg o ddeunydd ffres.

⁽⁴⁾ Porthiant sy'n hawdd i'w silweirio: > 3% o garbohydradau hydawdd mewn deunydd ffres; porthiant sy'n gymedrol anodd i'w silweirio: 1.5 i 3.0% o garbohydradau hydawdd yn y deunydd ffres.

Awdurdodi paratoad o *Pediococcus pentosaceus* (IMI 507025) (rhif adnabod 1k21017) fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid ar gyfer pob rhywogaeth o anifail

Mae'r paratoad o *Pediococcus pentosaceus* (IMI 507025) a bennir yn y tabl, sy'n perthyn i'r categori ychwanegion "ychwanegion technolegol" ac i'r grŵp gweithredol "ychwanegion silwair", wedi ei awdurdodi fel ychwanegyn mewn maeth anifeiliaid yn ddarostyngedig i'r amodau a nodir yn y tabl.

<i>Yr ychwanegyn</i>	<i>Pediococcus pentosaceus</i> (IMI 507025)
<i>Rhif adnabod</i>	1k21017
<i>Deiliad yr awdurdodiad</i>	Dim
<i>Categori ychwanegion</i>	Ychwanegion technolegol
<i>Grŵp gweithredol</i>	Ychwanegion silwair
<i>Cyfansoddiad yr ychwanegyn</i>	Paratoad solet o <i>Pediococcus pentosaceus</i> (IMI 507025) sy'n cynnwys isafswm o 1×10^{10} CFU/g o'r ychwanegyn
<i>Nodweddiad y sylwedd(au) actif</i>	Celloedd hyfyw <i>Pediococcus pentosaceus</i> (IMI 507025)
<i>Dulliau dadansoddi</i> ⁽¹⁾	I gyfrifo (cyfrif cytrefi) yr ychwanegyn bwyd anifeiliaid: <ul style="list-style-type: none"> Y dull plât taenu ar agar MRS (BS EN 15786:2021)⁽²⁾ I adnabod straen bacterol: <ul style="list-style-type: none"> Electrofforesis jel maes pylsedig (PFGE)
<i>Rhywogaeth neu gategori o anifail</i>	Pob rhywogaeth o anifail
<i>Oedran hynaf</i>	Dim
<i>Isafswm cynnwys</i> ⁽³⁾	Isafswm cynnwys yr ychwanegyn pan nad yw wedi ei gyfuno â micro-organeddau eraill fel ychwanegion silwair: <ul style="list-style-type: none"> 1×10^9 CFU/kg
<i>Uchafswm cynnwys</i> ⁽³⁾	Dim
<i>Darpariaethau eraill</i>	1. Rhaid nodi'r amodau storio yn y cyfarwyddiadau ar gyfer defnyddio'r ychwanegyn bwyd anifeiliaid a'r rhag-gymysgedd 2. Nid yw'r ychwanegyn wedi ei awdurdodi i'w ddefnyddio ond mewn deunydd ffres sy'n hawdd i'w silweirio neu'n gymedrol anodd i'w silweirio ⁽⁴⁾

⁽¹⁾ Mae manylion y dulliau dadansoddi wedi eu nodi yn y ddogfen sydd â'r cyfeirnod "Ares(2021)1902366 – 16/03/2021" a "JRC F.5/CvH/MGH /AS/Ares", ac a ddiweddarwyd ddiwethaf ar 21 Ebrill 2021. Ar gael yn: https://joint-research-centre.ec.europa.eu/publications/fad-2020-00760077_en. Y rhif cyfeirnod ffeil perthnasol yw "FAD-2020-0077".

⁽²⁾ O dan y cyfeirnod BS EN 15786:2021 "Animal feeding stuffs: Methods of sampling and analysis. Detection and enumeration of *Bacillus* spp. used as feed additive". Cyhoeddwyd gan y Sefydliad Safonau Prydeinig ar 30 Tachwedd 2021 (ISBN 978 0 580 99830 0). Ar gael yn: <https://knowledge.bsigroup.com>.

⁽³⁾ Unedau ffurfio cytref (CFU) o'r ychwanegyn/kg o ddeunydd ffres.

⁽⁴⁾ Porthiant sy'n hawdd i'w silweirio: > 3% o garbohydradau hydawdd mewn deunydd ffres; porthiant sy'n gymedrol anodd i'w silweirio: 1.5 i 3.0% o garbohydradau hydawdd yn y deunydd ffres.

Awdurdodi paratoad o *Lactiplantibacillus plantarum* (*Lactobacillus plantarum* yn flaenorol) (IMI 507026) (rhif adnabod 1k21601) fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid ar gyfer pob rhywogaeth o anifail

Mae'r paratoad o *Lactiplantibacillus plantarum* (IMI 507026) a bennir yn y tabl, sy'n perthyn i'r categori ychwanegion "ychwanegion technolegol" ac i'r grŵp gweithredol "ychwanegion silwair", wedi ei awdurdodi fel ychwanegyn mewn maeth anifeiliaid yn ddarostyngedig i'r amodau a nodir yn y tabl.

<i>Yr ychwanegyn</i>	<i>Lactiplantibacillus plantarum</i> (IMI 507026)
<i>Rhif adnabod</i>	1k21601
<i>Deiliad yr awdurdodiad</i>	Dim
<i>Categori ychwanegion</i>	Ychwanegion technolegol
<i>Grŵp gweithredol</i>	Ychwanegion silwair
<i>Cyfansoddiad yr ychwanegyn</i>	Paratoad solet o <i>Lactiplantibacillus plantarum</i> (IMI 507026) sy'n cynnwys isafswm o 1×10^{10} CFU/g o'r ychwanegyn
<i>Nodweddiad y sylwedd(au) actif</i>	Celloedd hyfyw <i>Lactiplantibacillus plantarum</i> (IMI 507026)
<i>Dulliau dadansoddi</i> ⁽¹⁾	I gyfrifo (cyfrif cytrefi) yr ychwanegyn bwyd anifeiliaid: <ul style="list-style-type: none"> • Y dull plât taenu ar agar MRS (BS EN 15787:2021⁽²⁾) I adnabod straen bacterol: <ul style="list-style-type: none"> • Electrofforesis jel maes pylsedig (PFGE)
<i>Rhywogaeth neu gategori o anifail</i>	Pob rhywogaeth o anifail
<i>Oedran hynaf</i>	Dim
<i>Isafswm cynnwys</i> ⁽³⁾	Isafswm cynnwys yr ychwanegyn pan nad yw wedi ei gyfuno â micro-organeddau eraill fel ychwanegion silwair: <ul style="list-style-type: none"> • 1×10^9 CFU/kg
<i>Uchafswm cynnwys</i> ⁽³⁾	Dim
<i>Darpariaethau eraill</i>	1. Rhaid nodi'r amodau storio yn y cyfarwyddiadau ar gyfer defnyddio'r ychwanegyn bwyd anifeiliaid a'r rhag-gymysgedd 2. Nid yw'r ychwanegyn wedi ei awdurdodi i'w ddefnyddio ond mewn deunydd ffres sy'n hawdd i'w silweirio neu'n gymedrol anodd i'w silweirio ⁽⁴⁾

